

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Emma Sullivan
(Rhif Ffôn: 01443 864420 Ebst: sullie@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Gwener, 23 Medi 2022

Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffrydio'n fyw ac yn cael ei recordio a bydd ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Felly, bydd delweddau/sain yr unigolion sy'n siarad ar gael yn gyhoeddus i bawb trwy'r recordiad ar wefan y Cyngor: www.caerffili.gov.uk

Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, mae angen o leiaf 3 diwrnod gwaith o rybudd os byddwch chi'n dymuno gwneud hynny. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gais.

I bwy bynnag a fynno wybod,

Bydd cyfarfod aml-leoliad arbennig y **Cyngor** yn cael ei gynnal yn y Siambr, Tŷ Penallta a thrwy Microsoft Teams ar **Dydd Iau, 29ain Medi, 2022 am 5.00 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall aelodau'r Cyhoedd neu'r Wasg fynychu'n bersonol yn Nhŷ Penallta neu gallant weld y cyfarfod yn fyw drwy'r ddolen ganlynol: <https://civico.net/caerphilly>

Yr eiddoch yn gywir,

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR

A G E N D A

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach



Correspondence may be in any language or format | Gallwch ohebu mewn unrhyw iaith neu fformat

I dderbyn ac ystyried yr adroddiad(au) canlynol:-

- 3 Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd at 31 Mawrth 2035 - Strategaeth a Ffefrir.

1 - 88

Cylchrediad:

Pob Aelod a Swyddog Priodol

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk, ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r [Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn](#) ar ein gwefan neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.